OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 2810 (Cy.237)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2007

Wedi'i wneud - -	*25 Medi 2007*
Wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*26 Medi 2007*
Yn dod i rym - -	*20 Hydref 2007*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 7(1) and (3) and 42(6) and (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ac a freiniwyd bellach ynddynt(**1**), a hwythau o'r farn y caiff Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, ar y cyd â'i swyddogaethau eraill, gyflawni'n briodol y swyddogaethau ychwanegol a roddir drwy hyn, ac ar ôl ymgynghori fel yr ymddengys iddynt sydd yn briodol yn unol ag adran 7(2) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2007 a daw i rym ar 20 Hydref 2007.

2. Diwygir Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2005(**2**) fel a ganlyn.

3.—(1) Yn erthygl 2 yn y diffiniad o "y Gyfarwyddeb" ("the Directive") rhodder yn lle'r geiriau "89/48/EEC" y geiriau "2005/36/EC".

(2) Yn erthygl 2 yn y diffiniad o "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") rhodder yn lle'r geiriau "Rheoliadau'r Cymunedau Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) (Y System Gyffredinol Gyntaf) 2005" y geiriau "Rheoliadau'r Cymunedau Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2007.".

(**1**) 1998 p.30. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) O.S. 2005/36 (Cy.3).